



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn

2015-16

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2015-16 gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r cylch gwaith blynyddol yn ychwanegol at waith craidd Estyn o gynnal arolygiadau.

ISBN Digidol: 978-1-4734-3042-6
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2015
WG24567

Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2015-16

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

1. y cyngor penodol sy'n ofynnol gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn 2015-16 sy'n cynnwys:
 - a) materion lle gofynnir i Estyn ddarparu adroddiadau manwl sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig;
 - b) gweithgorau y gofynnir i Estyn eu cefnogi drwy fynd i gyfarfodydd a thrwy gyfrannu at eu trafodion;
 - c) meysydd eraill y mae angen mynd ati i roi cyngor a chymorth ad-hoc yn eu cylch;
 - d) arolygu consortia.
2. rhagolwg dangosol o'r cyngor sy'n debygol o fod yn ofynnol gan AdAS yn 2016-17. Darperir rhagolwg dros dro ar gyfer 2016-17 er mwyn llywio gwaith cynllunio'r Arolygiaeth. Bydd y rhaglen yn cael ei thrafod a'i hadolygu ymhellach cyn iddi gael ei rhoi ar ei gwedd derfynol.

1. Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn 2015-2016

a) Adroddiadau manwl sy'n tynnu ar dystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig

Caiff yr adolygiadau thematig i'w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2015-16 eu rhestru yn y tabl drosodd.

Mae'r rhestr yn cynnwys cyfanswm o bymtheg eitem, saith eitem gyfredol o gylchoedd gwaith blaenorol (eitemau 1-7) ac wyth eitem newydd, a gynigiwyd gan swyddogion polisi a'u datblygu ymhellach drwy drafodaethau rhwng uwchswyddogion Estyn ac AdAS (eitemau 8-15).

Mae'r rhestr eitemau yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn parhau i symud tuag at gylch gwaith mwy strategol sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau a bennwyd gan fy Adran ar gyfer addysg a hyfforddiant.

	<u>Teitl</u>	<u>Diben</u>	<u>Blwyddyn/ Cyfnod</u>
1.	Safonau llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 3 ac effaith y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol.	Dyma'r trydydd adolygiad a'r olaf yn y gyfres hon a bydd yn ystyried effaith y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol hyd yma.	Blwyddyn 3 o 3.
2.	Pa mor effeithiol yw'r rhaglenni ymyriadau rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gan olrhain y cynnydd a wneir o ran darparu'r cymorth ychwanegol angenrheidiol.	Dyma'r trydydd adolygiad a'r olaf yn y gyfres hon. Bydd yn adeiladu ar dystiolaeth o beth yn union yw'r cymorth mwyaf effeithiol ar gyfer y rheini sy'n cael anawsterau wrth ddysgu rhifedd, a bydd hefyd yn sail ar gyfer cynllunio a darparu hyfforddiant yn y dyfodol.	Blwyddyn 3 o 3.
3.	Arferion Gorau yn y Celfyddydau	<p>Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal mewn ymateb i adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch y Celfyddydau mewn Addysg o fewn ysgolion Cymru. Yr adolygiad hwn fyddai'r cam cyntaf o safbwynt cyflwyno tystiolaeth ynghylch y profiadau celfyddydol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd a'u heffaith ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd.</p> <p>Edrychwyd ar Gyfnod Allweddol yn ystod Blwyddyn 1; bydd Blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 a bydd hyn yn cyfrif fel 2 adolygiad yn 2015/16. Bydd Blwyddyn 3 yn canolbwyntio ar sefydlu profiadau dysgu creadigol.</p>	Blwyddyn 2 o 3.
4.	Arferion Gorau yn y Celfyddydau	<p>Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal mewn ymateb i adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch y Celfyddydau mewn Addysg o fewn ysgolion Cymru. Yr adolygiad hwn fyddai'r cam cyntaf o safbwynt cyflwyno tystiolaeth ynghylch y profiadau celfyddydol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd a'u heffaith ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd.</p> <p>Edrychwyd ar Gyfnod Allweddol yn</p>	Blwyddyn 2 o 3.

		ystod Blwyddyn 1; bydd Blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 a bydd hyn yn cyfrif fel 2 adolygiad yn 2015/16. Bydd Blwyddyn 3 yn canolbwyntio ar sefydlu profiadau dysgu creadigol.	
5.	Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon.	Bydd yr adolygiad yn asesu i ba raddau y caiff y fersiynau diwygiedig o'r Safonau Athrawon wrth eu gwaith a'r Safonau Arweinyddiaeth eu defnyddio mewn ysgolion er mwyn cefnogi gwell addysgu a dysgu. Bydd Blwyddyn 1 yn canolbwyntio ar y defnydd statudol o Safonau Athrawon wrth eu Gwaith fel rhan o'r broses rheoli perfformiad a bydd Blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar y defnydd statudol o Safonau Arweinyddiaeth yn y broses o reoli perfformiad penaethiaid.	Blwyddyn 2 o 2
6.	Pennu a thynnu sylw at arferion da o safbwynt datblygu arweinyddiaeth o fewn ysgolion.	Bydd yr adolygiad hwn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni argymhellion Adroddiad Hill ynghyd ag elfennau allweddol y Cynllun Gwella Ysgolion. Trwy hyn bydd yn cyfrannu at sicrhau newid o ran diwylliant mewn perthynas ag arweinyddiaeth ynghyd â gwelliannau sylweddol o safbwynt deilliannau disgyblion.	Blwyddyn 2 o 2
7.	Effaith Teach First Cymru.	Bydd yr astudiaeth hon yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch a ddylid estyn y rhaglen beilot ar ôl cohort 2015/16.	Blwyddyn 2 o 3
8.	Gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.	Bydd yr adolygiad hwn yn mesur pa mor briodol yw cynnwys Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol ynghyd ag effeithiolrwydd y camau gweithredu manwl o safbwynt gwella gwaith cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a safon addysgu mewn perthynas â'r Gymraeg, Cymraeg Ail Iaith ynghyd â safon addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.	Blwyddyn 1 o 1
9.	Gwella uchelgeisiau a	Bydd yr astudiaeth hon yn	Blwyddyn 1

	chyrrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion yng Nghymru.	adolygu'r canllawiau presennol ac yn pennu cymorth ac ymyriadau effeithiol.	o 1
10.	Addysg heblaw yn yr ysgol.	Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i fapio'r ddarpariaeth o addysg heblaw yn yr ysgol ar draws Cymru a bydd yn adolygu effeithiolrwydd rheolaeth Awdurdodau Lleol o'r ddarpariaeth.	Blwyddyn 1 o 1
11.	Mesur cynnydd dysgwyr a threfniadau pontio ar gyfer colegau arbenigol ac Addysg Bellach.	Bydd yr astudiaeth hon yn adolygu'r trefniadau ar gyfer mesur cynnydd dysgwyr ynghyd â threfniadau pontio mewn colegau arbenigol (blwyddyn 1) a sefydliadau addysg bellach (blwyddyn 2).	Blwyddyn 1 o 2
12.	Gweithredu a chyflenwi Bagloriaeth newydd Cymru o fewn ysgolion a cholegau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 (Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch, ôl-16, Cenedlaethol a Sylfaen).	Bydd yr astudiaeth hon yn asesu Bagloriaeth newydd Cymru. <i>[Bydd hon yn astudiaeth fawr a fydd efallai yn cyfrif fel 2 eitem yn blwyddyn 2 a 3.]</i>	Blwyddyn 1 o 3
13.	Gweithredu a chyflenwi'r cymwysterau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith.	Helpu i wella, cyflenwi a datblygu llythrennedd gweithredol ar lefel uchel a phennu arferion da a meysydd i'w gwella.	Blwyddyn 1 o 3
14.	Gweithredu a chyflenwi'r cymwysterau TGAU newydd ar gyfer Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd.	Helpu i wella, cyflenwi a datblygu rhifedd gweithredol ar lefel uchel a phennu arferion da a meysydd i'w gwella.	Blwyddyn 1 o 3
15.	Addysgu ieithoedd Tramor Modern yng nghyfnodau allweddol 3 a 4	Help i lywio'r gwaith o ddatblygu polisiau a mentrau Llywodraeth Cymru gyda's nod o gynyddu'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4.	Blwyddyn 1 o 1
Bydd Estyn hefyd yn cwblhau'r astudiaeth o allu a chapasiti ysgolion i ymwneud ag ysgolion eraill yn effeithiol a ddechreuwyd yn 2014/15 a bydd yn llunio adroddiad terfynol. Bydd y gwaith yn llywio'r broses o barhau i ddatblygu'r Model Cenedlaethol newydd ar gyfer gwella Ysgolion a bydd yn atgyfnerthu'r Consortia Addysg Rhanbarthol yng Nghymru.			

b) Meysydd polisi y gallai AdAS ofyn am gyngor neu gefnogaeth yn eu cylch drwy gyfraniadau at weithgorau

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth mewn perthynas ag amryfal feysydd. Efallai y bydd gofyn i Estyn gefnogi gwahanol weithgorau drwy anfon cynrychiolwyr, cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu drafodaethau ag uwch swyddogion o fewn AdAS.

Rhagwelir y bydd angen cyngor ynghylch y meysydd a ganlyn yn ystod 2015-16:

Fframwaith Datblygu ac Aseu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDAF) - Gr p
Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Ymarferwyr
Gweithgor Proffil y Cyfnod Sylfaen (*caiff y gwahoddiadau eu hanfon yn fuan*)
Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar
Gr p Arbenigwyr y Cyfnod Sylfaen
Gr p Arbenigwyr y Cyfnod Sylfaen - Gr p Gorchwyl a Gorffen ar y Gweithlu a Llywodraethu
Gr p Arbenigwyr y Cyfnod Sylfaen - Gr p Gorchwyl a Gorffen ar Ymarfer
Gr p Cynllun 10 Mlynedd Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar (*i'w sefydlu yn ystod 2015-16*)
Rhaglen Llythrennedd Corfforol ar gyfer Gr p Llywio Ysgolion
Gr p Llywio Dysgu Creadigol
Gr p Gorchwyl a Gorffen ar Wasanaethau Cerdd
Gr p Gweithredu Adolygiad Cam 1
Gr p asesu'r cwricwlwm
Cyflawni grwpiau pwnc Donaldson ('posibl'/'yn amodol ar benderfyniadau Gweinidog ynghylch argymhellion')
Cyflawni gr p Donaldson ar gyfer datblygu'r gweithlu ('posibl'/'yn amodol ar benderfyniadau Gweinidog ynghylch argymhellion')
Cyflawni gr p Donaldson ar gyfer rhanddeiliaid ('posibl'/'yn amodol ar benderfyniadau Gweinidog ynghylch argymhellion')
Gr p llywio ynghylch asesiadau athrawon
Gr p Gorchwyl a Gorffen ar Fathemateg
Gr p Cynghori ar Ddysgu ar gyfer Troseddwyr
Gr p Llywio Mesuriadau Perfformiad Cyson
Gr p Llywio Llais y Dysgwr Cymru
Gr p Cyfeirio Rhanddeiliaid - Adolygiad o Gymwysterau
Bwrdd Cynghori Cymwysterau Cymru
Gr p Strategaeth Datblygu Cymwysterau
Grwpiau Pynciau TGAU
Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
Fforwm Awdurdodau Lleol - Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
Fforwm Cymru Gyfan o Ymarferwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr
Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol
Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd
Gr p Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid
Yr Adolygiad o Safonau Proffesiynol Athrawon
Bwrdd Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol.

c) Meysydd eraill y gallai AdAS fod angen cyngor a chefnogaeth yn eu cylch

Mae Estyn hefyd yn cynnig cefnogaeth barhaus ynghylch y meysydd canlynol:

Cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion.

Lleoliadau ar gyfer disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig lle y mae caniatâd penodol gan Weinidog Cymru yn ofynnol o dan adran 347(5)(b) o Ddeddf Addysg 1996.

Monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo o dan adran 347(1) o Ddeddf Addysg 1996 i dderbyn disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr; neu ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru i dderbyn disgyblion sydd ag AAA o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr.

Arolygu a monitro'n flynyddol holl golegau arbenigol ac annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu ymweliadau monitro blynyddol o golegau arbenigol ac annibynnol yn Lloegr lle y caiff lleoedd 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru eu cyllido.

Cofrestru ysgolion annibynnol o dan adran 163.

Y Grant Amddifadedd Disgyblion.

Grant gwella addysg ar gyfer ysgolion.

Datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes.

Ysgolion sy'n peri pryder.

Gwaith dilynol ar Wasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol y canfuwyd eu bod yn methu, gan gynnwys ymyriadau a chefnogaeth gan y Gweinidog.

Enwebiadau er Anrhydedd.

Gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidog ag ysgolion.

Cwestiynau'r Cynulliad.

d) Arolygu Consortia

Yn 2014/15 derbyniodd Estyn gyngor a chyfarwyddyd gan Fforwm Cynghori a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, y pedwar consortia, yr Adran Addysg a Sgiliau a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch datblygu'r meini prawf a'r fethodoleg ar gyfer arolygu'r pedwar consortia addysg rhanbarthol.

Bwriedir i'r arolygiadau ddechrau ar ddiwedd hydref 2015 a byddant yn parhau hyd hydref 2016. Disgwylir iddynt gynnwys effaith y consortia ar safonau, ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ynghyd â threfniadau arwain a rheoli'r consortia.

Eleni, sef 2014-2015, er mwyn paratoi ar gyfer yr arolygiadau o gonsortia a amlinellir uchod, bydd Estyn yn cynnal adolygiad cylch gwaith er mwyn ystyried mewn rhagor o fanylder y gwaith o ddatblygu'r fframwaith arolygu a threfniadau gwaith presennol y consortia. Mae'r gwaith maes sydd ynghlwm wrth yr adolygiad hwn eisoes yn mynd rhagddo ac mae'n cael ei gynnal ar y cyd ag astudiaeth gwerth am arian gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn yn mynd i'r afael â'r agwedd gwaith maes ar yr adolygiad gyda'i gilydd lle y bo'n bosibl.

2. Rhagolwg dangosol o eitemau posibl a allai fod yn ofynnol gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn 2016-17

Rhagolwg dros dro yw hyn a chaiff ei ddarparu er mwyn helpu Estyn i gynllunio ar gyfer 2016-2017. Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau wrth lunio'r rhestr ac mae'n cynnwys eitemau a fydd yn parhau o 2015-2016, ynghyd ag eitemau a gaiff eu gohirio yn ystod y cyfnod hwnnw. Caiff trafodaethau manwl pellach eu cynnal gyda swyddogion polisi a chydag Estyn cyn y cytunir ar yr eitemau.

a) Eitemau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015-16 ac a fydd yn parhau yn 2016-17

1. Arferion Gorau yn y Celfyddydau.
2. Effaith Teach First Cymru.
3. Mesur cynnydd dysgwyr a threfniadau pontio ar gyfer colegau arbenigol ac Addysg Bellach.
4. Gweithredu a chyflenwi Bagloriaeth newydd Cymru (x2).
5. Gweithredu a chyflenwi'r cymwysterau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith.
6. Gweithredu a chyflenwi'r cymwysterau TGAU newydd ar gyfer Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd.

b) Eitemau posibl i'w hystyried yn 2016-17

Awgrymiadau o flynyddoedd blaenorol:

Addysg Ariannol.

Pa mor effeithiol y mae ysgolion wedi sefydlu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar draws holl Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Llawlyfr a phecyn cymorth ymarferol ar Berthnasau Iach - ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Adolygiad o effaith Gwaith Ieuencid yng Nghymru.

Safbwyntiau cychwynol ynghylch cyflwyno Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar.

Pa mor dda a defnyddiol oedd y canllawiau ar gyfer ymarferwyr ynghylch dysgu a ysgogir gan y plentyn/a arweinir gan oedolion.

Pennu effaith canllawiau, a gaiff eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2014, ynghylch rheoli'n effeithiol absenoldebau staff ysgol.

Arferion gorau o safbwynt cynllunio strategol ysgolion ar gyfer gwella.

Adolygiad o ddarpariaeth e-ddiogelwch mewn ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd.

Pa gymorth a darpariaeth a gynigir mewn lleoliadau ysgol (Cynradd ac Uwchradd dros gyfnod o 2 flynedd) ar gyfer dysgwyr sydd ag anhawster dysgu penodol.

Cronfa Ddysgu Undebau Cymru.

Y defnydd o gymwysterau sgiliau hanfodol mewn colegau AB (dim tan 2016).

Rhaglen dreigl o adolygiadau pwnc: (ysgolion) Cymraeg.